

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynllunio gyrfa a datblygu eich gyrfa chwaraeon. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth yn eich chwaraeon, bydd angen i chi gynllunio ble rydych yn mynd a sut rydych yn mynd i'w gyrraedd drwy hyfforddiant, addysg a cheisio perfformio ar y lefel uchaf. Dylai cynllun eich gyrfa gynnwys y posibiladau sydd o fewn a'r tu allan i'ch chwaraeon hefyd.

Wrth i'ch gyrfa ddatblygu, bydd yn bwysig edrych ar gynllun eich gyrfa eto ar adegau rheolaidd a gwneud newidiadau, yn enwedig er mwyn ystyried pan fydd diwedd eich gyrfa fel athletwr yn agosáu.

Dyma brif ddeilliannau'r safon hon:

1.
Cynllunio eich gyrfa chwaraeon
2.
Gweithredu cynllun eich gyrfa a'i ddatblygu
3.
Cynllunio eich cyllid a'i reoli

Mae'r safon hon ar gyfer athletwyr sydd â'r potensial gwirioneddol i gyflawni rhagoriaeth yn eu chwaraeon ac sydd am berfformio ar y lefel uchaf.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynllunio eich gyrfa chwaraeon

1.
dewis y nodau yr ydych am eu cyflawni yn eich gyrfa
2.
gweithio gyda chynghorwyr i gynllunio gweithgareddau ac amserlenni er mwyn cyflawni'r nodau hyn
3.
gwneud yn siŵr bod llwybrau eich gyrfa a'r amserlenni yn realistig ac o fewn cyrraedd
4.
datblygu a chofnodi cynllun i'ch helpu i gyflawni nodau eich gyrfa gan ystyried unrhyw gynlluniau posibl wrth gefn

Gweithredu cynllun eich gyrfa a'i ddatblygu

1. dewis sefydliadau a phobl sy'n gallu eich helpu i ddilyn cynllun eich gyrfa
- 5.1 defnyddio eu cymorth a'u cefnogaeth i roi cynllun eich gyrfa ar waith
1.
adolygu cynllun eich gyrfa a'i ddiweddarau pan mae amgylchiadau'n newid
 2.
paratoi cynllun eich gyrfa ar gyfer yr adeg pan na fyddwch yn gallu perfformio mwyach fel athletwr proffesiynol

Cynllunio eich cyllid a'i reoli

1.
dewis eich nodau ariannol
2.
paratoi cynllun ariannol er mwyn cyflawni eich nodau ariannol
3.
dilyn eich cynllun ariannol a cheisio cymorth a chynngor pan fo angen
4.
cadw cofnodion ariannol
5.
adolygu eich cynllun ariannol pan mae amgylchiadau'n newid

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cynllunio eich gyrfa chwaraeon

1.
rolau a chyfrifoldebau athletwr o'r radd flaenaf
2.
hanfodion perfformio ar y lefel uchaf, gan gynnwys cyflogau cychwynnol, oriau oddi cartref, hyfforddiant, gemau a'r diwylliant mewn ystafelloedd newid
3.
pwysigrwydd cael cynllun sy'n cynnwys eich gyrfa fel athletwr o'r radd flaenaf yn ogystal â phosibiliadau eraill
4.
sut i nodi nodau a llwybrau gyrfa, fel athletwr ac mewn gyrfa amgen
5.
sut i asesu'r yrfa y gallech ei dilyn a'r ystod o bobl sy'n gallu eich helpu i gyflawni hyn
6.
yr adnoddau sydd eu hangen arnoch i asesu'r yrfa y gallech ei dilyn, gan gynnwys proffil chwaraewr
7.
sut i wneud yn siŵr bod nodau a llwybrau eich gyrfa yn realistig ac o fewn cyrraedd, a phwysigrwydd gwneud hyn
8.
y mathau o gynlluniau wrth gefn y gallech orfod paratoi ar eu cyfer

Gweithredu cynllun eich gyrfa a'i ddatblygu

1.
y mathau o sefydliadau a phobl sy'n gallu eich helpu i ddatblygu cynllun eich gyrfa a'i gyflawni
2.
y mathau o gymorth ac arweiniad y gallai'r sefydliadau a'r bobl hyn eu cynnig
3.
y mathau o hyfforddiant, sgiliau, dealltwriaeth a chymwysterau fydd eu hangen arnoch i ddilyn cynllun eich gyrfa
- 4.

pwysigrwydd adolygu a diweddarau cynllun eich gyrfa a sut i wneud hyn

5.

strwythur llwybr perfformiad eich corff llywodraethu cenedlaethol

Cynllunio eich cyllid a'i reoli

1.

pam mae'n bwysig rheoli eich arian yn gyfrifol

2.

sut i ddod o hyd i ffynonellau cyngor ariannol a'u defnyddio

3.

sut i baratoi eich nodau ariannol eich hun; tymor byr, canolig a hir

4.

pwysigrwydd gofyn am gyngor gan eich cynghorwyr ariannol pan mae gennych broblemau gyda'ch cynllun ariannol

5.

y mathau o gofnodion ariannol y dylech eu cadw a sut i'w cadw'n gyfredol

6.

pam mae'n bwysig adolygu eich cynllun ariannol a sut i wneud hynny

Cwmpas/Ystod

Cynllun Ariannol

1.
incwm
2.
gwariant
3.
benthyciadau
4.
nawdd
5.
trethiant
6.
cynilion
7.
buddsoddiad
8.
yswiriant
9.
pensiwn

Datblygu eich gyrfa chwaraeon

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	31 Gorff 2019
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Mai 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKASE17
Galwedigaethau perthnasol	Hamdden; teithio a thwristiaeth, Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Galwedigaethau Chwaraeon a Ffitrwydd, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig a Galwedigaethau Technegol
Cyfras/Set	Cyflawni Rhagoriaeth mewn Perfformiad Chwaraeon (Gan gynnwys Newid Mehefin 2007)
Geiriau Allweddol	Datblygu; chwaraeon; gyrfa